OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2013 Rhif 544 (Cy.57)

Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Deintyddol) (Cymru) (Diwygio) 2013

Gwnaed - - - -	*6 Mawrth 2013*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*11 Mawrth 2013*
Yn dod i rym - -	*1 Ebrill 2013*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 125 a 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**).

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Deintyddol) (Cymru) (Diwygio) 2013 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2013.

Diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Deintyddol) (Cymru) 2006

2. Yn rheoliad 4 o Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Deintyddol) (Cymru) 2006(**2**) (cyfrifo ffioedd)—

(a) ym mharagraff (1), yn lle "£12.40" rhodder "£12.70";

(b) ym mharagraff (2), yn lle "£40.20" rhodder "£41.10"; ac

(c) ym mharagraff (5), yn lle "£12.40" rhodder "£12.70".

Dirymu

3. Mae Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Deintyddol) (Cymru) (Diwygio) 2012(**3**) wedi eu dirymu.

(**1**) 2006 p.42.
(**2**) O.S. 2006/491 (Cy.60), fel y'i diwygiwyd.
(**3**) O.S. 2012/1893 (Cy.229).